Cynllun Tymor

i Rieni Cyfnod Sylfaen

Dosbarth Derbyn:
Mrs Davies a Miss Rowlands
Dosbarth Meithrin:
Miss Morris

Tymor Gwanwyn/Pasg 2024

Y Pedwar Diben

Bydd y Cwricwlwm Newydd yn rhoi y sylfaen sydd ei angen ar blant i lwyddo mewn byd sy'n newid. Mae'r cwricwlwm yn newid i helpu pobl ifanc i fod yn fwy hyblyg, eu cymell i barhau i ddysgu sgiliau newydd wrth i fywyd a'r byd newid o'u cwmpas.

Y nod yw cefnogi plant a phobl ifanc i fod:

- yn ddysgwyr uchelgeisiol, galluog
- yn gyfranwyr mentrus, creadigol
- yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus
- yn unigolion iach, hyderus

Bydd yr agweddau uchod yn cael sylw blaenllaw yn ein cynlluniau ac rydym yn teimlo'n eiddgar ac yn hyderus y gallwn feithrin y sgiliau hyn yn ein plant.

I wybod mwy am y Cwricwlwm Newydd, sganiwch y cŵd isod:

Os hoffech unrhyw wybodaeth pellach, mae croeso i chi ebostio athrawes dosbarth eich plentyn.

Thema: Lawr yn y goedwig, beth welwn i...

Y Chwe Maes Dysgu:

Iechyd a Lles: *Bydd iechyd a lles yn ganolog i'n cynlluniau ar gyfer y tymor yma hefyd. Byddwn yn canolbwyntio ar feddylgarwch a gwneud dewisiadau da a charedig y tymor hwn yn enwedig wrth ddathlu wythnos caredigrwydd. Yn ystod sesiynau amser cylch, byddwn yn annog y plant i feddwl am beth gallwn ei wneud i fod yn unigolion iach yn feddyliol a chorfforol. Yn ystod ein gwersi Addysg Gorfforol y tymor hwn, sgiliau corfforol, sgiliau pel a gemau buarth amrywiol fydd yn tynnu ein sylw. Byddwn hefyd yn chwilio am adar ar sialens yr RSPB ac yn dysgu amdanynt yn yr Ysgol Goedwig ac yn gofalu amdanynt.*

Iaithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu: *Does dim gwefr gwell na gweld y plant yn dysgu'r iaith Gymraeg a dysgu am ein ddiwydiant gan gynnwys dysgu am Ddiwrnod y Crempogau, Pasg, Diwrnod y Llyfr, Wythnos Adrodd Straeon, Dydd Miwsig Cymru a Diwrnod Trwynau Cochion. Defnyddiwn raglenni ffonolegol megis Tric a Chlic i ddatblygu eu sgiliau darllen. Byddwn yn canolbwyntio ar y straeon 'Dani'n mynd i hela arth' ac 'Y Gryffalo'.*

Byddwn yn dysgu amryw o'r straeon ar ffurf Pie Corbett er mwyn ein helpu i gofio ac addasu'r straeon hyn. Addysgwn y plant hefyd i gyfathrebu drwy'r iaith Makaton a byddwn yn canolbwyntio ar arwydd newydd yn wythnosol ac yn ei ddefnyddio o ddydd i ddydd.

Mathemateg a Rhifedd: *Y tymor hwn byddwn yn edrych ar drefnu ac adnabod a chreu patrymau amrywiol. Byddwn hefyd yn datblygu ein gwybodaeth o fondiau rhif gyda phlant hŷn yr adran yn defnyddio'r sgil ar gyfer adio a thynnu syml. Manteisiwn ar dywydd y Gwanwyn trwy ymchwilio a chwarae yn yr ardal tu allan er mwyn creu patrymau a chwarae gemau rhif. Byddwn hefyd yn ymchwilio a defnyddio arian.*

Y Celfyddydau Mynegiannol: *I gyd-fynd gyda'r stori 'Dani'n mynd i hela arth' mi fyddwn yn creu offerynnau ein hunain ac yn adrodd y stori trwy ein cerddoriaeth. Byddwn hefyd yn cadw'n brysur trwy ddathlu'r Pasg a Sul y mamau trwy greu cerdiau.*

Gwyddoniaeth a Thechnoleg: *Byddwn yn ennyn chwilfrydedd y plant a meithrin eu sgiliau i ddysgu'n annibynnol drwy amrywiaeth o weithgareddau, ymchwiliadau ac arbrofion cyffrous. Byddwn yn dysgu am wahanol ddeunyddiau naturiol ar ein taith synhwyro ac yn dysgu am anifeiliaid o goedwigoedd y byd. Byddwn hefyd yn paratoi bwydydd hyfryd ar gyfer ein picnic tedis yn deillio o'r straeon. Byddwn yn cymhwyso'r sgiliau fframwaith cymhwysedd digidol drwy gasglu data a'i gymhwyso, animeiddio, codio a thrafod diogelwch ar y wê.*

Dyniaethau: *Byddwn yn manteisio ar gyfleoedd i addysgu yn yr awyr agored gan wneud llu o weithgareddau trawsgwricwlaidd yn Ysgol y Goedwig. Byddwn yn dathlu diwylliannau a chrefyddau gwahanol gan edrych ar Y Pasg a Blwyddyn Newydd Y Lleuad yn benodol. O ran Cymru a Chymreictod byddwn yn dysgu am hanes Santes Dwynwen a Dewi Sant ac yn dathlu eu hanes.*